



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

ERIC EUGENE MURANGWA



Chwaraeodd Eric gyda thîm pêl-droed gorau Kigali. Yn ystod yr Hil-laddiad yn Rwanda, gwarchododd ei gyd-chwaraewyr ef rhag y lladd. Heddiw mae Eric yn rhedeg sefydliad sy'n defnyddio pêl-droed i hyrwyddo goddefgarwch, undod a chymodi ymhlith ieuentid Rwanda.

'Daeth Zuzu, person fu'n arteithio, treisio a llofruddio llawer o Twtsi, yn waredwr i Eric, nid unwaith, ond dwywaith. Pam? Roedd Zuzu yn caru Rayon Sports.'

Ganwyd Eric yn ninas ddwyreiniol Rwanda, Rwamagana yn 1975, yr hynaf o chwech o blant. Roedd ei deulu yn rhedeg bar a bwyty yn y dref gyda

phoblogaeth fawr o Twtsi. Am ddegawdau, anogodd y llywodraeth genedlaethol Hwtw llywodraethol erledigaeth a gwahaniaethu'r bobl Twtsi. Erbyn 1982 roedd yr aflonyddu gan yr heddlu wedi dod yn ormod a gorfodwyd teulu Eric i gau'r busnes a symud i brif-ddinas Rwanda, Kigali. Yma, yn ystod blynyddoedd ffurfiannol ei fywyd, datblygodd Eric frwdfrydedd am bêl-droed. Sylwyd yn gyflym ar ei dalent a thyfodd Toto, fel y cafodd ei alw, yn un o hoff chwaraewyr Rayon Sports - ffaith fyddai'n arbed ei fywyd yn ddiweddarach.

Pan gafodd awyren oedd yn cludo Arlywydd Rwanda ei saethu i lawr ar 6 Ebrill 1994, roedd Eric yn gwylio pêl-droed mewn bar. Dyna'r diwrnod olaf y byddai'n gweld llawer o'i ffrindiau, cydweithwyr ac aelodau ei deulu, gan gynnwys ei frawd bach saith oed, Irankunda Jean Paul.

Nododd y llofruddiad, y beiodd y llywodraeth Hwtw ar y gwrthryfelwyr Twtsi, anterth degawdau o densiwn rhwng y ddau grŵp ethnig a chychwyn yr [hil-laddiad barodd am 100 diwrnod](#) gan ladd dros 800,000 o bobl. Deffrowyd Eric yn gynnar ar 7 Ebrill gan sŵn dinas yn ymladd. Roedd darllediadau radio yn mynnu bod pobl yn aros yn eu cartrefi tra bod milwyr yn chwalu eu drysau i ganfod y rhai oedd yn 'gyfrifol' yn eu tŷb nhw.

Yn fuan, llenwyd cartref Eric gan bump o ddynion arfog yn chwilio am arfau a oedd, yn ôl pob sôn, wedi'u cuddio yno. Gan wrthod credu ei esboniad ei fod yn chwaraewr i Rayon Sports, bygythiwyd ei fywyd oni bai y gallai brofi hynny. Agorodd Eric hen albwm lluniau gan arbed ei fywyd a bywydau'r rhai oedd gydag ef.

Penderfynodd nad oedd yn ddiogel yn ei gartref mwyach a ffodd i gartref ei gyd-chwaraewr Hwtw. Tra bo chwaraewyr mewn llawer o glybiau pêl-droed eraill ledled Rwanda yn lladd ei gilydd, arhosodd y rhai yn Rayon Sports wedi'u huno trwy'r hil-laddiad. Ar ôl cuddio yno am wythnos neu fwy, bu rhaid i Eric symud yn ei flaen ar ôl i'w gyd-chwaraewr ddweud wrtho fod y lladdwyr yn dod ar ei gyfer. Roedd angen cuddfan newydd arno ac, ar ôl trafodaethau gyda'i gydweithwyr, penderfynwyd y byddent yn rhoi cynnig ar un o aelodau bwrdd y clwb.

Roedd yn gam peryglus a mentrus, gan fod aelod y bwrdd, Jean-Marie Vianney Mudahinyuka, a alwyd hefyd yn Zuzu, yn arweinydd drwg-enwog y milisia *Interahamwe* - dyn a gâi ei garcharu'n ddiweddarach am ei rôl yn yr hil-laddiad. Daeth Zuzu, person fu'n arteithio, treisio a llofruddio

llawer o Twtsi, yn waredwr i Eric, nid unwaith, ond dwywaith. Pam? Roedd Zuzu yn caru Rayon Sports.

Cuddiodd Zuzu Eric, ond roedd eraill yn ei gymdogaeth oedd yn anghysurus gyda phresenoldeb Twtsi, gan ei weld yn achosi risg diangen. Gorfodwyd Eric i ddychwelyd i gartref ei gyd-chwaraewr eto, ar ôl ond ychydig ddyddiau. Ni fu'n gallu gorffwys am lawer. Daeth triawd o filisia o hyd iddo, gan fynnu ei fod yn mynd gyda nhw. Atebwyd ei wrthodiad gan drais, gydag un o'r milisia yn ei daro yn ei ben gyda grenâd. Ar ôl dwyn ei arian, roedd y dynion yn barod i fynd ag Eric gyda hwy cyn ymyriad cefnder ei gyd-chwaraewr, oedd yn filwr y llywodraeth. Darbwyllodd hwy i'w adael.

Ond gan deimlo y byddai ei lwc yn darfod, a chyda nifer o bobl oedd yn barod i'w warchod yn edwino, roedd Eric yn gwybod fod angen rhywle mwy diogel arno. Dychwelodd at Zuzu a addawodd fynd ag ef i bencadlys y Groes Goch ar ochr arall y ddinas, oedd yn rhoi lloches i ffoaduriaid. Aeth cerbyd Zuzu, gyda dau warchodwr arfog yn chwifio eu reiffiau drwy'r ffenestri agored, ag Eric yn ddiogel trwy'r rhwystrau ar y ffyrdd i'r pencadlys mewn ardal lled-anial o Kigali. Gadawyd ef y tu allan i glwydi'r ardal i ofalu amdano ei hun.

Hawliodd cyfarwyddwr y cyfleuster na allai adael Eric i mewn er lles a diogelwch y rhai oedd eisoes yno. Treuliodd Eric yr ychydig nosweithiau nesaf, heb syniad arall a gan dderbyn ei ffawd, prin dafliaid carreg o ddiogelwch, yn yr awyr agored. Cynyddodd ymddangosiad cwpl ifanc a'u babi wrth glwydi Pencadlys y Groes Goch y pwysau ar gyfarwyddwr y cyfleuster ac, er na allai roi mynediad iddynt, helpodd drefnu trafndiaeth i'r teulu ac Eric hefyd.

Roedd Eric yn amheus o'r anhunanoldeb hwn yng nghanol 100 diwrnod o drais. Aeth i'r cerbyd yn llawn pryder; roedd yn ofni ei fod yn cael ei gludo i'w farwolaeth. Fodd bynnag, aethpwyd ag ef i derfynau'r Hôtel des Mille Collines, lle y bu dros 1,200 yn cael lloches yn ystod yr hil-laddiad – stori a adroddwyd yn gampus yn y ffilm o 2004 *Hotel Rwanda*.



Arhosodd yno am dros fis a chafodd ei aduno gyda ffrindiau agos ac aelod o fwrdd Rayon Sports cyn cael ei wacáu i wersyll ar gyfer pobl sydd wedi'u dadleoli'n fewnol y tu allan i'r ddinas. Er iddo gollu cyfanswm o 35 o berthnasau, canfu Eric fod y rhan fwyaf o'i deulu agos wedi goroesi.

Ar ôl cyflawni dau fis o waith dyngarol yn ne Rwanda, dychwelodd Eric i Kigali. Ond, nid oedd yn ddiogel o bell ffordd. Yn llechu yng nghefn gwlad ac mewn gwladwriaethau cyfagos roedd grwpiau o filisia Hwtw oedd

yn gyson yn eu dymuniad i gwblhau eu perwyl o ddileu'r boblogaeth Twtsi. Canfu Eric fod ei enw ar restr o dargedau un o'r grwpiau hyn.

Sylweddolodd nad oedd yn ddiogel yn Rwanda tra bod grwpiau Hwtw yn aros. Cafodd gyfle i ddianc pan chwaraeodd dîm pêl-droed Rwanda yn Nhiwnisia. Yn hytrach na dychwelyd ar yr hediad i Rwanda, arhosodd Eric yno. Yn ddiweddarach, mewnfudodd i Wlad Belg ac yna i'r DU yn 1997. Roedd hyn yn golygu y bu rhaid iddo aberthu ei gariad mawr - ei yrfa pêl-droed. Ond eto, mae ei frwdfrydedd a'i ddiolchgarwch am y gêm wedi aros yn gryf.

Arbedodd pêl-droed ei fywyd. Rhagorodd ar wahaniaethau ethnig, ac yn y pen draw rhoddodd obaith iddo am y dyfodol. Y ffydd hon yn y gêm arweiniodd Eric at sefydlu sefydliad [Football for Hope, Peace and Unity](#). Mae'n defnyddio pêl-droed fel teclyn i hyrwyddo goddefgarwch, undod a chymodi ymhlith ieuenctid Rwanda er mwyn atal trasiediau fel hil-laddiad 1994 rhag digwydd eto yn y dyfodol.